# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar y 11fed o Orffennaf 2017
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Ruby Williams, Wyn Evans a Barry Owen.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Jocelyn Andrew, Garym Roberts, Wyn Jones, Gerallt Davies ac Eiddwen Merritt.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Mehefin a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Materion Cynllunio**
Rhif Cais: A170530.
Seabreeze, Rhiwgoch, Aberaeron.
Codi ystafell hobïau/garej.
Dim gwrthwynebiad.
Rhif cais: A170524.
Plot 6 Tir ar bwys Ty Pwll, Ffosyffin, Aberaeron.
Codi byngalow.
Dim gwrthwynebiad.
Rhif cais: A170597.
Llaethlliw, Neuaddlwyd, Ciliau Aeron.
Addasu adeilad allanol yn uned gwyliau.
Dim gwrthwynebiad.

**Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru**
Darllenwyd cofnodion pwyllgor a gynhaliwyd ar yr 24ain o Ebrill.

**GIG Cymru – Gwasanaethau Iechyd Meddwl**
Derbyniwyd becyn oddiwrth Grŵp Prosiect Meddwl, sef grŵp o gynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd sydd wedi bod yn cydweithio i ystyried heriau a chyfleoedd o ddiwallu anghenion iechyd meddwl ein poblogaeth. Mae gweithdai yn cael eu cynnal ar draws Siroedd Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion ac mae gweithdy lleol cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y 1af o Awst yng Neuadd Goffa Llwyncelyn. Dosbarthwyd holiadur i'r aelodau i'w llenwi.

**Unrhyw Fater Arall**
Diolchodd y Cynghorydd Carys Morgan (Cadeirydd) i'r Cynghorwyr, y Cynghorydd Sirol Marc Davies a'u ffrindiau am y noson lwyddiannus o gasglu sbwriel yn ddiweddar ac hefyd am y pryd bwyd blasus yn Nhafarn Gilfach yr Halen wedyn.
Dywedodd y Cynghorydd Wyn Evans ei fod wedi derbyn llawer o gwynion oddiwrth trigolion Derwen Gam am y bagiau newydd ail-gylchu mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cyflwyno yn ddiweddar, ei bod o ansawdd gwael ac yn rhwygo'n hawdd a gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu i'r Cyngor Sir.
Soniodd y Cynghorydd Ruby Williams fod y sedd ger yr Orsaf Betrol yn Llwyncelyn mewn cyflwr peryglus gyda rhannau ohoni wedi torri. Penderfynwyd archebu un newydd.
Dangosodd y Cynghorydd Carys Morgan ddiddordeb yn y mater nesaf a gadawodd yr ystafell tra bod yn cael ei drafod.
Sonwyd gan y clerc ei bod wedi derbyn ebost ynglyn â'r cais ariannol i'r 'Parth Dim Galw Diwahoddiad' a phenderfynwyd dim gwneud sylwad pellach.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 12fed o Fedi.

**Unrhyw Fater Arall**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45.

Mae’r cyfarfod nesaf ar y 9fed o Fai.